



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Croeso i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Iechyd Gwell
Gofal Gwell
Bywydau Gwell

Better Health
Better Care
Better Lives



Better health | Better care | Better lives
Iechyd gwell | Gofal gwell | Bywydau gwell

Croeso i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)

Diolch i chi am ddangos diddordeb mewn dod yn Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Dyma gyfle eithriadol i arwain un o'r sefydliadau iechyd mwyaf o ran maint ac amrywiaeth yng Nghymru ar adeg bwysig yn ein datblygiad.

Mae gennym uchelgais bendant ar gyfer y dyfodol. Mae ein strategaeth deng mlynedd, Gwent 35, yn nodi ein hymrwymiad i greu Gwent iachach, lle mae gan bawb yr un cyfle i fyw bywyd hir ac iach. Mae'r strategaeth, a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â bron i 7,000 o bobl, yn gosod sylfaen gref i ni ar gyfer y gwaith o drawsnewid iechyd a gofal gan ganolbwyntio ar dair uchelgais: Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell

Ein her nawr yw trosi'r uchelgais honno yn welliannau diriaethol a chynaliadwy ar gyfer ein cymunedau.

Felly, bydd ein Prif Weithredwr nesaf yn ymuno â ni mewn cyfnod llawn cyfleoedd a heriau sylweddol. Rydym yn chwilio am arweinydd rhagorol a all ddod ag ansawdd, perfformiad, cynaliadwyedd o ran y gweithlu a chynaliadwyedd ariannol ynghyd, wrth gynnal ffocws diwyro ar brofiad a chanlyniadau'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

Bydd partneriaeth yn allweddol. Er mwyn cyflawni ein uchelgais, mae angen i ni weithio y tu hwnt i ffiniau sefydliadol, gweithio gyda'n cymunedau, gyda llywodraeth leol, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, prifysgolion, GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae Gwent 35 ei hun wedi'i hadeiladu ar yr egwyddor y dylid dylunio dyfodol iechyd a lles gyda'n gilydd.

Yr un mor bwysig, rydym am i'r Bwrdd Iechyd fod yn sefydliad lle gall ein pobl ffynnu ynddo. Yn 2026 fe lansiom ein Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad newydd, sy'n canolbwyntio ar **Garedigrwydd, Gonestrwydd a Pharch**. Mae'r gwerthoedd hyn yn

disgrifio'r ffordd yr ydym yn dymuno gofalu, arwain a gweithio gyda'n gilydd ac maent yn allweddol o ran y diwylliant yr ydym yn parhau i'w adeiladu.

Rydym yn chwilio am Brif Weithredwr a fydd yn byw y gwerthoedd hynny yn bersonol.

Rhywun gweladwy, tosturiol a dilys, sy'n creu hyder ac ymddiriedaeth; sy'n gwrandao ar staff, cleifion a chymunedau; sy'n croesawu her; sy'n galluogi pobl i siarad; ac sy'n cyfuno caredigrwydd gydag atebolrwydd pendant wrth gyflawni. Bydd gan y Prif Weithredwr rôl arweiniol bwysig hefyd y tu allan i'r Bwrdd Iechyd, sef cyfrannu at ddatblygiad GIG Cymru a meithrin perthnasoedd cryf ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

Os yw'r cyfle hwn i arwain sefydliad uchelgeisiol, gweithio gyda chydweithwyr a phartneriaid talentog ac ymroddedig, a gwneud gwahaniaeth parhaol i iechyd a lles pobl Gwent yn gwneud i ci deimlo'n gyffrous, byddem yn hynod falch o glywed gennych.

Andrew Morgan
Cadeirydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan


Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gyfrifol am gynllunio, comisiynu a darparu gofal iechyd ar draws **Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.**

Mae ein gwasanaethau'n rhychwantu gofal sylfaenol, gofal cymunedol, gofal aciwt, iechyd meddwl ac anabledd dysgu, gyda chefnogaeth rhwydwaith eang o ysbytai, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau gofal sylfaenol.


Mae gwybodaeth recriwtio yn y gorffennol yn disgrifio system iechyd integredig sy'n gwasanaethu mwy na 660,000 o bobl ac sy'n cyflogi mwy na 15,000 o staff.

Rydym yn sefydliad sydd â hunaniaeth leol gref yn ogystal â rôl bwysig o fewn GIG Cymru.

Mae hyd a lled ein cyfrifoldebau yn golygu y bydd ein Prif Weithredwr nesaf yn arwain llawer mwy na chasgliad o wasanaethau gofal iechyd. Byddant yn arwain sefydliad sydd â rôl ganolog mewn gwella iechyd y boblogaeth, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gweithio gyda phartneriaid i greu cymunedau iachach.



Strwythur Tîm Gweithredol



Trefniadau Llywodraethu a Strwythur Pwyllgorau



Gwent: Lle Gwych i Fyw ac Arwain

Mae Gwent yn cynnig cyfle i'r Prif Weithredwr newydd weithio ar draws cymunedau sydd â gwahanol hunaniaethau, cryfderau ac anghenion iechyd.

Mae ôl troed y Bwrdd Iechyd yn cwmpasu pum ardal awdurdod lleol: **Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen**. Mae yma ganol dinasoedd prysur, trefi marchnad bywiog, cysylltiadau cymudwyr ardderchog, bryniau ymdonnog, traethau a chefn gwlad, pob un ohonynt gyda'i gilydd yn cynnig profiad byw anhygoel - does ryfedd bod De-ddwyrain Cymru yn denu mwy a mwy o drigolion bob blwyddyn.

Mae trefi a dinasoedd De Ddwyrain Cymru yn cynnig profiad amrywiol ac aml-ddiwyllynnol. Maent yn fannau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden sy'n cystadlu ag unrhyw ddinas arall yn y DU.


► Dysgwch fwy am Dde-ddwyrain Cymru - Aneurin Bevan

Uchod mae dolen i'n tudalennau gwe sydd â mwy o fanylion am yr ardal

Mae De-ddwyrain Cymru yn cyfuno cymunedau trefol ac ardaloedd gwledig helaeth ac yn darparu mynediad rhwydd i Ddyffryn Gwy a'r Bannau Brycheiniog.

Ond mae Gwent yn fwy na'r lleoliad ar gyfer ein gwasanaethau. Mae'n ardal yr ydym eisiau siapio ei dyfodol gyda'r bobl sy'n byw yma.

Mae hyn wrth wraidd Gwent 35.



Gwent 35: Ein Strategaeth ar gyfer y Dyfodol

Iechyd Gwell. Gofal Gwell. Bywydau Gwell.

Gwent 35 yw ein strategaeth ddeng mlynedd a'n cyd-weledigaeth ar gyfer dyfodol iechyd a lles yng Ngwent. Mae ei uchelgais yn glir: erbyn 2035, fe ddylai pawb ledled Gwent gael yr un cyfle i fyw bywyd hir ac iach. Yn bwysig, nid strategaeth Bwrdd Iechyd a ddatblygwyd ar gyfer ein cymunedau yn unig yw hon. Mae wedi cael ei siapio gyda nhw. Ymgysylltwyd â bron i 7,000 o bobl ar y cwestiwn "Beth sy'n bwysig i chi deimlo'n iach?" Helpodd eu hadborth ni i benderfynu ar dri nod hirdymor.

Iechyd Gwell

Ei gwneud yn haws i bobl aros yn iach, gan gynnwys mynediad at frechlynnau, cymorth a chynghor ar iechyd meddwl, ochr yn ochr ag ymyriadau a ddatblygwyd gyda chymunedau.

Gofal Gwell

Darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd â ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a chefnogi unigolion i aros yn iach o fewn eu cymunedau.

Bywydau Gwell

Symud ein ffocws ymhellach oddi wrth ymateb i afiechyd gan ganolbwyntio ar atal a mynd i'r afael â dylanwadau ehangach ar iechyd a lles, gan gynnwys swyddi, tai a lles cymunedol.

Ar gyfer ein Prif Weithredwr newydd, **fe ddylai Gwent 35 ddod yn fframwaith trefnu lle caiff strategaeth ei throï'n ddarpariaeth.**

Yr her o ran arweinyddiaeth fydd cysylltu ein gweledigaeth hirdymor â'r penderfyniadau a wnawn heddiw, gan sicrhau bod gwelliannau mewn ansawdd, mynediad, cynhyrchiant a chynaliadwyedd hefyd yn ein symud tuag at Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell.



Iechyd Gwell
Gofal Gwell
Bywydau Gwell

Better Health
Better Care
Better Lives



Ein Diwylliant: Caredigrwydd, Gonestrwydd a Pharch

Ym mis Chwefror 2026, fe lansiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ei Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad newydd.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd a'r gofal rydym yn ei ddarparu. Rydym yn cefnogi ein gilydd i fod yn agored, i ddysgu, ac i weithredu bob amser gyda charedigrwydd, gonestrwydd a pharch.

Mae'r mentrau hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer y ffordd rydym yn cydweithio, yn cefnogi ein pobl, ac yn darparu gofal rhagorol i'n cymunedau. Gyda'i gilydd, maent yn siapio ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ac yn sicrhau bod ein gwerthoedd yn arwain popeth a wnawn.



Y bwriad yw bod y rhain yn llawer mwy na datganiadau ar dudalen. Mae'r fframwaith yn berthnasol ar draws meysydd recriwtio ac anwytho, arfarnu a datblygu, diwylliant yn y gweithle a'r ffordd yr ydym yn ymdrin â phryderon ac ymddygiad.

Bydd gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb penodol dros wneud y gwerthoedd hyn yn weladwy o erchwyn y gwely i Ystafell y Bwrdd, gan eu modelu'n bersonol a sicrhau bod diwylliant y sefydliad yn eu hadlewyrchu.

Caredigrwydd



Mae caredigrwydd wrth wraidd y ffordd yr ydym yn gofalu am ein cleifion, am ein gilydd ac amdanom ni ein hunain. Mae'n golygu dangos empathi a thosturi a gosod ein anghenion a'n profiadau ni ein hunain ac anghenion a phrofiadau eraill, wrth wraidd popeth a wnawn.

Gonestrwydd



Rydym yn gweithredu gyda gonestrwydd, tegwch, a thryloywder — gwneud y peth iawn, cymryd cyfrifoldeb, ac ennill ymddiriedaeth eraill. Rydym yn dal ein hunain a'n gilydd yn atebol am ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.

Parch



Rydym yn trin pawb gydag urddas a thegwch, gan ddathlu amrywiaeth a chreu diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu clywed a'u gwerthfawrogi.



Arwain o fewn GIG Cymru

Mae Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan hefyd yn arweinydd system.

Mae'r disgrifiad swydd presennol yn nodi'n bendant mai'r Prif Weithredwr yw **Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd**, sydd â chyfrifoldeb am arweinyddiaeth, cyfeiriad strategol a rheolaeth y Bwrdd Iechyd ac am roi cyngor i'r Bwrdd ar ei fusnes, gan gynnwys uniondeb, rheoleidd-dra a gweinyddu.

Gweler disgrifiad swydd sydd wedi'i atodi

Bydd y Prif Weithredwr yn cyflawni rôl arweiniol ar lefel genedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys bod yn aelod o Grŵp Arweinyddiaeth Prif Weithredwyr GIG Cymru sy'n gweithio gyda Chydweithrediad GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfrifoldebau hyn yn ymestyn i arwain a chyflawni fel yr uwch swyddog cyfrifol ar fentrau gwasanaeth cyhoeddus pellgyrhaeddol y GIG. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn partneriaeth i arwain rhaglenni gwaith yn strategol gydag uwch arweinwyr amlddisgyblaethol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Y Cyd-destun Strategol Cenedlaethol

Cymru iachach yw cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol o hyd. Ei uchelgais yw helpu pobl i aros yn iach ac yn annibynnol cyhyd â phosibl a chreu dull system gyfan mwy di-dor o ran iechyd a gofal cymdeithasol.

I raddau helaeth, mae'r cyfeiriad cenedlaethol yn cefnogi Gwent 35: atal, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mwy o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, gofal yn nes at y cartref, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, cynaliadwyedd a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ac adnoddau.

Mae cyhoeddiadau mwy diweddar ar bolisi cenedlaethol ym mis Mehefin 2026 hefyd wedi pwysleisio bod rhaid lleihau amseroedd aros, cryfhau gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, symud gofal yn nes at gartrefi pobl, moderneiddio digidol a data a datblygu strategaeth gweithlu tymor hwy.

Felly bydd angen i'r Prif Weithredwr nesaf ganolbwyntio ar Went yn ogystal â bod yn ddylanwadol ledled Cymru. Bydd angen iddynt allu trosi polisi cenedlaethol yn welliant lleol ystyrlon tra'n sicrhau bod profiad ac anghenion cymunedau Gwent yn helpu i siapio ffyrdd o feddwl ar lefel genedlaethol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

